

Kevin O'Leary  
Prif Weithredwr Dros Dro  
Cyllid Cymru  
1 Capital Quarter  
Stryd Tyndall  
Caerdydd CF10 4B7

4 Mehefin 2015

Annwyl Mr O'Leary

### Cyllid Cymru

Fel y gwyddoch, efallai, ar 13 Mai 2015, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid sesiwn ddilynol gyda'r Athro Dylan Jones–Evans, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Banc Datblygu Cymru, a Robert Lloyd Griffiths, Cadeirydd Bwrdd Strategol Busnes Cymru. Cynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth ar ôl inni gyhoeddi ein hadroddiad ar [Cyllid Cymru](#) ym mis Mai 2014 a'r [astudiaeth dichonolrwydd creu banc datblygu i Gymru](#) (Saesneg yn unig).

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Athro Jones–Evans a chan Mr Lloyd Griffiths yn ein sesiwn. Byddai'n dda gan y Pwyllgor pe baech chi'n darllen y [trawsgriafiad](#) o'r sesiwn—fel arall, gallwch ei gwyllo ar [Senedd TV](#). Byddai'n ddiddorol gennym glywed unrhyw sylwadau sydd gennych ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, a byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu atom cyn gynted ag y gallwch.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor Cyllid, Bethan Davies, ar 0300 200 6372.

Yn gywir



Jocelyn Davies

Cadeirydd

